Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response



| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 25.10.24 |
| **Pwnc / Subject:** | **Cynllun Strategol 2025-2030** |



**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000[1] a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan y rhai sy'n cael addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny, gan gynnwys p'un a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rhai sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn modd sy'n cynnig gwerth am arian;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig a phob oed, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

[1] Caiff y ddeddf hon ei disodli gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, pan fydd y darpariaethau ansawdd yn dechrau.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

**Cyflwyniad**

At ei gilydd, mae Estyn o'r farn fod yr amcanion o fewn y Cynllun Strategol drafft hwn yn briodol a dylent alluogi Medr i gyflawni ei un ar ddeg dyletswydd strategol. Mae'r nodau strategol hefyd yn cyd-fynd yn dda â'r rhan fwyaf o'r datganiad o flaenoriaethau strategol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil ac arloesi a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Fel yr amlinellir trwy gydol ein hymateb, mae Estyn, trwy ein cylch parhaus o weithgarwch arolygu, yn cysylltu arolygiadau ac adolygiadau thematig yn y sector trydyddol, yn gallu cynnig mewnwelediadau allweddol i Medr i gyflwr y genedl ar hyn o bryd, h.y. beth sy'n gweithio'n dda a beth mae angen ei wella i ymestyn profiad y dysgwr. Gallwn hefyd gynnig mewnwelediadau i ddarpariaeth ôl-16 arall nad yw'n dod o dan gwmpas Medr ond bydd hefyd yn bwysig i helpu cyflawni ei amcanion strategol, yn ogystal â mewnwelediadau o'n gwaith cyn-16 o ran cefnogi unrhyw waith ar y cyfnod pontio.

Rydym wedi amlinellu'r hyn rydym ni'n credu yw'r blaenoriaethau allweddol presennol ar gyfer dysgwyr a darparwyr, a byddem yn cytuno bod y Cynllun hwn, at ei gilydd, yn cynrychioli'r blaenoriaethau hynny ac yn sicrhau cydbwysedd digonol rhyngddynt a dyletswyddau deddfwriaethol eraill Medr.

Mae'n ymddangos bod yr ymrwymiadau sylfaen a'r rhai o ran twf yn gywir ar draws y nod sylfaen a'r pum nod strategol, ac mae lefel uchelgais y Cynllun yn addas a realistig o ran sicrhau cyfnod pontio esmwyth gyda chyn lleied o darfu ag y bo modd i ddarparwyr, arweinwyr a rhanddeiliaid allweddol. Wrth i Medr aeddfedu a datblygu, dylai cyfleoedd i hwyluso amcanion, yn enwedig ymrwymiadau twf, gael eu hystyried a'u trafod yn rheolaidd â'r sector trydyddol.

Y maes allweddol y gallai Medr fod eisiau ystyried rhoi mwy o bwyslais iddo yw o ran cysylltiad â'r gweithlu addysg drydyddol a fydd yn angenrheidiol i gefnogi Medr wrth gyflwyno'r Cynllun uchelgeisiol hwn. Nid yw'r Cynllun yn cyfeirio rhyw lawer at sut bydd Medr yn sicrhau bod y gweithlu addysg drydyddol yn gallu cyflwyno a manteisio ar ddatblygiad proffesiynol parhaus priodol er mwyn cefnogi cyflawni safonau rhagorol a dyheadau uchel, er enghraifft. Mae diffyg gweithlu priodol yn rhwystr ar hyn o bryd, er enghraifft o ran annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg.

Yn unol â'r holl gynlluniau strategol, bydd effeithiolrwydd y manylion gweithredol sy'n eistedd o dan bob un o'r amcanion strategol yn allweddol. Yr amcanion a'r mesurau gweithredol hynny ddylai lywio'r modd y bydd angen i'r sector trydyddol gydweithio i weithio tuag atynt.

Edrychwn ymlaen at gefnogi Medr, a phartneriaid eraill, mewn cyflawni ymrwymiadau'r Cynllun hwn.

## Cwestiynau'r ymgynghoriad

<u>Rhan Un: dyletswyddau deddfwriaethol a thystiolaeth</u>

1. Mae Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 yn gosod un ar ddeg dyletswydd strategol ar Medr i:
    1. Hyrwyddo dysgu gydol oes
    2. Hyrwyddo cyfle cyfartal
    3. Annog cyfranogiad mewn addysg drydyddol
    4. Hyrwyddo gwelliant parhaus mewn addysg drydyddol
    5. Hyrwyddo ymchwil ac arloesi
    6. Hyrwyddo cydweithio a chydlyniant mewn addysg drydyddol ac ymchwil
    7. Cyfrannu at economi gynaliadwy ac arloesol
    8. Hyrwyddo addysg drydyddol trwy gyfrwng y Gymraeg
    9. Hyrwyddo cenhadaeth ddinesig
    10. Hyrwyddo rhagolwg byd-eang
    11. Hyrwyddo cydweithio rhwng darparwyr addysg drydyddol ac undebau llafur

    I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y Cynllun yn ein galluogi i gyflawni ein dyletswyddau?

    Cytuno'n gryf / **Cytuno** / Anghytuno / Anghytuno'n gryf.

    A oes unrhyw ddyletswyddau nad oes digon o gynrychiolaeth ohonynt yn y Cynllun?

    **Oes** / Nac oes. Rhowch fanylion.

| |
|---|
| At ei gilydd, dylai'r Cynllun alluogi Medr i gyflawni ei un ar ddeg dyletswydd strategol.<br><br>Mae'r nodau strategol yn cwmpasu cydweithio â darparwyr a phartneriaid ar draws addysg drydyddol, ond nid ydynt yn sôn yn benodol am bartneriaethau ag undebau llafur. O ystyried bod y ddyletswydd ddeddfwriaethol (11) yn cyfeirio'n benodol at gydweithio rhwng darparwyr ac undebau llafur, gallai hwn fod yn faes nad oes cynrychiolaeth ddigonol ohono.<br><br>Yn sail i'r ddyletswydd i hyrwyddo gwelliant parhaus mewn addysg drydyddol mae disgwyliad i ystyried y gweithlu. Y maes allweddol y gallai Medr fod eisiau ei ystyried rhoi mwy o bwyslais arno yw o ran y gweithlu addysg drydyddol a fydd yn angenrheidiol i gefnogi Medr i gyflawni'r Cynllun uchelgeisiol hwn. Nid yw'r Cynllun yn cyfeirio rhyw lawer at sut bydd Medr yn sicrhau bod y gweithlu addysg drydyddol yn gallu cyflwyno a manteisio ar ddatblygiad proffesiynol parhaus priodol er mwyn cefnogi cyflawni safonau rhagorol a dyheadau uchel, er enghraifft. Mae diffyg gweithlu priodol yn rhwystr ar hyn o bryd, er enghraifft o ran annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg. |

2. Mae angen i'n Cynllun ymateb i'r [datganiad o flaenoriaethau strategol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil ac arloesi]() a gyflwynwyd i ni gan Lywodraeth Cymru. Dyma'r pum blaenoriaeth:

1. Datblygu system drydyddol sy'n paratoi dysgwyr ar gyfer economi ddynamig ac sy'n newid lle gall pawb gaffael y medrau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i lwyddo mewn bywyd a gwaith.
2. Cynnal a gwella ansawdd y system drydyddol, parhau a chynyddu gwaith ar ehangu cyfranogiad a chymryd camau i sicrhau system decach a rhagorol i bawb.
3. Rhoi'r dysgwr yn ganolog i'r system trwy ganolbwyntio ar brofiad dysgwyr yn y system drydyddol a'u lles.
4. Sicrhau bod y system addysg drydyddol yn cyfrannu at yr economi a'r gymdeithas.
5. Sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil fel sefydliad hynod effeithiol sy'n darparu sefydlogrwydd ac arweinyddiaeth yn ystod y cyfnod pontio hwn.

A yw'r Cynllun yn mynd i'r afael yn ddigonol â phob un o'r blaenoriaethau hyn?

**Ydy** / Nac ydy / Yn rhannol.

Os 'nac ydy' neu 'yn rhannol', rhowch fanylion am sut gallai ymateb iddynt yn well.

At ei gilydd, mae'r nodau strategol yn cyd-fynd yn dda â'r rhan fwyaf o'r blaenoriaethau strategol, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig ag ehangu cyfranogiad, sicrhau tegwch ac ansawdd yn y system a chyfrannu at yr economi a'r gymdeithas.

Mae llais a phrofiad dysgwyr yn ganolog i holl waith arolygu a gwaith thematig Estyn, yn ogystal â'n hymweliadau gan arolygwyr cyswllt ag awdurdodau lleol a darparwyr ôl-16 addysg bellach, prentisiaethau a dysgu oedolion yn y gymuned. Wrth ganolbwyntio ar roi'r dysgwr a'i brofiadau yn ganolog i'r system drydyddol a'r nodau strategol yn y Cynllun hwn, gall Estyn fod yn bartner cydweithredol allweddol i Medr wrth ddatblygu'r nodau strategol yn ddeilliannau gweithredol ar gyfer dysgwyr.

Fel y nodwyd eisoes, gellid cryfhau'r Cynllun trwy gydnabod y rôl allweddol fydd gan y gweithlu addysg drydyddol mewn cyflwyno'r Cynllun, hefyd.

3. A yw'r Cynllun yn ystyried yr angen i:
   - ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd gan, neu o dan, Ddeddf Cydraddoldeb 2010;

     **Ydy** / Nac ydy / Yn rhannol. Rhowch fanylion.

At ei gilydd, mae nod strategol 1 yn mynd i'r afael â'r angen i gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 trwy hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin amgylchedd cynhwysol.

- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig[2] a phobl nad ydynt yn ei rhannu;

  **Ydy** / Nac ydy / Yn rhannol. Rhowch fanylion.

Nod Strategol 1 yw'r prif sbardun wrth hyrwyddo cyfle cyfartal, ac mae'n ymddangos ei fod yn cefnogi'r gofyniad hwn, at ei gilydd

- meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu:

  Ydy / Nac ydy / **Yn rhannol**. Rhowch fanylion.

At ei gilydd, mae nod strategol 1 yn cyd-fynd â meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt. Bydd angen i'r manylion gweithredol ategol amlinellu'r modd y bydd Medr yn galluogi meithrin cysylltiadau da trwy greu profiadau ar y cyd, annog cydweithio, a mynd i'r afael â nodau cymdeithasol cyffredin.

- lleihau anghydraddoldebau deilliannau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol[3]?

  **Ydy** / Nac ydy / Yn rhannol. Rhowch fanylion.

| |
|---|
| At ei gilydd, mae nod strategol 1 yn mynd i'r afael â'r angen i leihau anghydraddoldebau deilliannau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Bydd angen i Medr ystyried pa ddata y gallai fod angen iddo'i gasglu i helpu deall p'un a yw'n cael effaith ar yr agwedd hon. |

4. A fydd y Cynllun yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015?

   **Bydd** / Na fydd / Yn rhannol. Rhowch fanylion.

| |
|---|
| Mae'r nodau strategol yn cyd-fynd i raddau helaeth â'r nodau llesiant a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2015. |

[2]Protected characteristics are: age, disability, gender reassignment, marriage and civil partnership, pregnancy and maternity, race, religion or belief, sex, sexual orientation.
[3] Socio-economic disadvantage is defined as: 'living in less favourable social and economic circumstances than others in the same society'. Experiencing socio-economic disadvantage may include some or all of the following:
• living in a deprived area;
• having little or no savings;
• having little or no income; and/or • experiencing material deprivation (that is, lacking the things which most people would say are needed for an acceptable standard of living – such as the ability to replace worn-out furniture or to afford adequate heating).

5. A yw'r nodau a’r ymrwymiadau yn y Cynllun yn gydnaws â’r egwyddor datblygu cynaliadwy?

   **Ydyn** / Nac ydyn / Yn rhannol. Rhowch fanylion.

| |
|---|
| Mae’r nodau a’r ymrwymiadau yn cyd-fynd â’r egwyddor datblygu cynaliadwy. |

6. Wrth ddrafftio’r Cynllun hwn, rydym wedi ystyried ystod eang o dystiolaeth o adroddiadau ac ystadegau cyhoeddedig, yn cynnwys dogfennau Llywodraeth Cymru, ‘Cenhadaeth ein cenedl – safonau a dyheadau uchel i bawb’, ‘Cymraeg 2050 – miliwn o siaradwyr’ a strategaeth Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol ar gyfer 2023-2050: ‘Cymru Can’.

   A oes unrhyw dystiolaeth ychwanegol y mae angen i ni ei hadlewyrchu yn y Cynllun?

   **Oes** / Nac oes. Rhowch fanylion.

Mae’r ffynonellau data a nodwyd yn ffynonellau tystiolaeth gwerthfawr i Medr wrth ddrafftio’r Cynllun hwn. Yn ychwanegol, o ystyried bod profiad dysgwyr yn ganolog i’r Cynllun, bydd tystiolaeth ansoddol o’r hyn sy’n digwydd ar lawr gwlad ar lefel darparwr hefyd yn ffynhonnell dystiolaeth werthfawr i Medr, o ran datblygu’r nodau strategol ac o ran datblygu ‘sut’ bydd cynlluniau gweithredol yn eistedd o dan bob un ohonynt.

Trwy ein cylch parhaus o weithgarwch arolygu, adolygiadau thematig ac ymweliadau arolygwyr cyswllt, gall Estyn gynnig mewnwelediadau i gyflwr presennol y genedl, er enghraifft beth sy’n gweithio’n dda a beth sydd angen ei wella i ymestyn profiad dysgwyr. Heb arolwg cenedlaethol dysgwyr ar draws addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, dosbarthiadau chweched ysgolion a phrentisiaethau, gallai deilliannau cenedlaethol yr arolygon dysgwyr a ddefnyddir yn ystod arolygiadau fod yn ffynhonnell dystiolaeth ychwanegol fuddiol.

Byddai enghreifftiau eraill o dystiolaeth y gallai Medr eu defnyddio wrth ddatblygu’r Cynllun hwn a chynlluniau gweithredol dilynol yn cynnwys:

- Adroddiad blynyddol Estyn[4]

Mae adroddiad blynyddol Estyn yn amlinellu pa mor dda y mae pob sector yng Nghymru yn perfformio, a hefyd yn gwerthuso addysg a hyfforddiant yng nghyd-destun ystod o themâu allweddol trawsbynciol:

Yn yr adroddiad blynyddol, ceir crynodebau yn seiliedig ar sector sy’n amlinellu beth sy’n gweithio’n dda a beth mae angen ei wella yn y sectorau canlynol o fewn y tirlun trydyddol:

- Addysg bellach

[4] https://estyn.gov.wales/annual-report/

- Prentisiaethau
- Dysgu oedolion yn y gymuned
- Gwasanaethau addysg llywodraeth leol
- Ysgolion uwchradd

Byddai crynodebau wedi'u seilio ar sector ar gyfer sectorau ôl-16 eraill nad ydynt yn ffurfio rhan o reolaeth reoleiddiol Medr ond sydd â rhan gydweithredol allweddol i'w chwarae mewn bodloni llawer o'r nodau strategol yn cynnwys:

- Twf Swyddi Cymru+ - rhaglen cyflogadwyedd
  Colegau Arbenigol Annibynnol
- Cymraeg i Oedolion
- Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA)
    - Cymorth ar gyfer y Gymraeg mewn AGA

Yn ddiweddar, rydym wedi cyhoeddi adolygiadau thematig a fyddai'n ffynhonnell dystiolaeth ddefnyddiol i Medr wrth ddatblygu'r Cynllun. Mae enghreifftiau o'r rhain yn cynnwys:

- Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr 16-18 oed mewn addysg bellach[5]
- Cyflwyno cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru mewn rhaglenni prentisiaeth[6]
- Addysg a chymorth ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches[7]
- Adolygiad o'r cwricwlwm 16-19 presennol yng Nghymru[8]
- Partneriaethau ôl-16: cynllunio a darpariaeth ar y cyd rhwng ysgolion, a rhwng ysgolion a cholegau[9]

Trwy ein hymweliadau cyswllt blynyddol â darparwyr addysg drydyddol, gallwn hefyd ddarparu mewnwelediad cenedlaethol ar faes blaenoriaeth penodol ar gyfer dysgwyr a darparwyr yng Nghymru. Yn ystod ein hymweliadau cyswllt â cholegau addysg bellach yn 2023/24, canolbwyntiom ar ba mor dda yr oedd colegau'n ymateb i roi Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) ar waith (ADYTA)

- Adroddiad mewnwelediadau ADY[10]

Edrychwn ymlaen at weithio'n agos gyda Medr wrth gytuno ar y cyd am y defnydd gorau o weithgarwch thematig a mewnwelediadau yn y dyfodol i helpu llywio a chyflawni'r nodau strategol yn y Cynllun.

[5] https://annual-report.estyn.gov.wales/2023/peer-on-peer-sexual-harassment-among-1618yearold-learners-in-further-education/
[6] https://annual-report.estyn.gov.wales/2023/delivery-of-essential-skills-wales-qualifications-in-apprenticeship-programmes/
[7] https://annual-report.estyn.gov.wales/2023/education-and-support-for-refugees-and-asylum-seekers/
8 https://estyn.gov.wales/system/files/2022-10/A%20review%20of%20the%20current%2016-19%20curriculum%20in%20Wales_0.pdf
[9] https://estyn.gov.wales/system/files/2022-01/Post-16%20partnerships%20en.pdf
[10] Additional Learning Needs in Further Education Colleges - Estyn

7. Ydych chi'n rhagweld y bydd unrhyw ganlyniadau anfwriadol neu effeithiau negyddol yn deillio o'r Cynllun?

   Ydyn / **Nac ydyn**. Rhowch fanylion.

| |
|---|
| Bydd y manylion ategol ar sut bydd yr amcanion hyn yn cael eu bodloni yn bwysig i egluro sut gall darparwyr a phartneriaid cydweithredol gyflawni'r amcanion a amlinellir. |

<u>Rhan Dau: Nodau, Blaenoriaethau a Chyfleoedd</u>

8. Mae gweledigaeth Medr yn datgan y byddwn yn gweithio mewn cydweithrediad agos â'n partneriaid i alluogi system addysg drydyddol ac ymchwil sy'n canolbwyntio ar anghenion dysgwyr, cymdeithas a'r economi gyda rhagoriaeth, cydraddoldeb ac ymgysylltiad yn ganolog iddi.

   A yw'r nodau strategol yn y Cynllun yn ein galluogi i gyflawni ein gweledigaeth?

   **Ydyn** / Nac ydyn / Yn rhannol.

   Os 'nac ydyn' neu 'yn rhannol', rhowch fanylion am sut gallai'r Cynllun ein galluogi'n well i gyflawni ein gweledigaeth. Yn eich ateb, ystyriwch beth fyddai rôl eich sefydliad wrth gyflawni ein nodau.

9. Ym mhob un o'r nodau strategol yn y Cynllun, mae ymrwymiadau sylfaen i'w cyflawni yn y ddwy flynedd gyntaf, ac ymrwymiadau twf i'w datblygu dros bum mlynedd.

   Wrth ystyried pob un o'r nodau strategol, a yw'r ymrwymiadau sylfaen a thwf yn gywir?

   Ydyn / Nac ydyn / **Yn rhannol**. Rhowch fanylion.

At ei gilydd, mae'n ymddangos bod yr ymrwymiadau sylfaen a thwf yn briodol ar draws y Nod Sylfaen a'r pum Nod Strategol:

**Nod Sylfaen**
Rydym yn cytuno bod yr ymrwymiadau sylfaen a thwf o fewn y nod hwn yn briodol. Mae'n ddiddorol gweld ymrwymiad twf y bydd Medr yn disgwyl i ddarparwyr gymryd cyfrifoldeb am eu strategaethau perfformiad a gwella'u hunain. Yn rhan o'n gweithgareddau yn y sector ôl-16, rydym yn parhau i weld gormod o enghreifftiau aneffeithiol o hunanwerthuso a chynllunio gwelliant, felly byddem yn awyddus i archwilio'r rôl y gallwn ei chwarae yn cefnogi'r amcan hwn.

**Nod Strategol 1**
Rydym yn cytuno bod yr ymrwymiadau sylfaen a thwf yn Nod Strategol 1 yn briodol.

Mae llais a phrofiad dysgwyr yn ganolog i holl fframweithiau arolygu sectorau Estyn. Mewn cydweithrediad â Medr a phartneriaid eraill, gallwn gefnogi cyflawni'r nodau sylfaen a thwf trwy ein gwaith arolygu a thematig.

Rydym yn croesawu'r ymrwymiad i annog cyfranogiad ym mhob cam o ddysgu gydol oes mewn cyd-destun lle mae cyfranogiad oedolion yng Nghymru yn y safle isaf o blith holl wledydd y Deyrnas Unedig. Trwy ein gweithgareddau arolygu a chyswllt â phartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned ledled Cymru, gallwn gynnig mewnwelediadau allweddol a chefnogi ffurfio sut olwg fydd ar dysgu oedolion yng Nghymru yn y dyfodol mewn cynnig trydyddol ehangach.

Wrth gyflawni nod i leihau canran uchel y rhai sy'n 16-18 oed ac yn 19-24 oed yng Nghymru nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NACH), bydd yn bwysig i Medr barhau i gydweithio'n agos â rhaglenni cyflogadwyedd eraill nad ydynt yn disgyn o fewn ei gwmpas. Mae rhaglen Twf Swyddi Cymru+ (JGW+) yn sbardun allweddol ar gyfer lleihau cyfraddau diweithdra ymhlith pobl ifanc ledled Cymru. Mae Estyn wedi cynnal adolygiad monitro yn y gorffennol gyda darparwyr yn ystod blwyddyn gyntaf y rhaglen[11], a bydd adolygiad pellach o'r rhaglen yn cael ei gynnal trwy flwyddyn gontract 24/25. Felly, gallwn gynnig mewnwelediadau allweddol i Medr i sut mae rhaglen Twf Swyddi Cymru+ yn gweithredu a pha mor gysylltiedig yw'r rhaglen â darparwyr addysg drydyddol.

Rydym yn croesawu'r ymrwymiad i ddatblygu fframwaith cyffredin ar gyfer iechyd meddwl a lles. Roedd cyfran y bobl ifanc sy'n dweud bod ganddynt broblemau gorbryder ac iechyd meddwl yn tyfu cyn y pandemig, ac mae'n parhau'n flaenoriaeth i ddarparwyr ar draws y sectorau trydyddol. Croesewir yr amodau rheoleiddiol sy'n cefnogi lles staff a dysgwyr i fod yn deg ar draws darpariaeth addysg drydyddol, hefyd. Dylai fod y cymorth hwn ar gael i bawb, ni waeth pryd a ble mae dysgwyr yn dysgu.

**Nod Strategol 2**
Rydym yn cytuno bod yr ymrwymiadau sylfaen a thwf yn Nod Strategol 2 yn ymddangos yn briodol.

Mae'r pwysigrwydd a roddir gan y Cynllun ar gydweithio yn galonogol wrth ddatblygu llwybrau dysgu cydlynus. Mae meysydd o'r sector trydyddol lle cyflwynir darpariaeth mewn seilos cystadleuol o hyd, gydag ychydig o eglurder i ddysgwyr ar y llwybrau sydd ar gael iddynt. Yn ogystal â sicrhau bod darparwyr yn cydweithio i alinio darpariaeth a datblygu llwybrau tryloyw i ddysgwyr, mae angen sicrhau hefyd fod dysgwyr yn gallu manteisio ar gyngor ac arweiniad annibynnol effeithiol ar unrhyw gam o'r daith ddysgu. Er bod y Cynllun yn crybwyll bod angen hyrwyddo gyrfaoedd, cyngor ac arweiniad, gallai fod yn fuddiol i Medr fynd ymhellach wrth archwilio gwneud hyn yn fandad i bob darparwr trydyddol.

Rydym yn cytuno mai medrau sylfaenol yw'r sylfaen ar gyfer gweithlu cynhyrchiol ac yn croesawu'r ymrwymiad twf i adolygu darpariaeth medrau sylfaenol ar draws y tirlun trydyddol. Yn ddiweddar, cyhoeddom adolygiad thematig i gyflwyno cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru mewn rhaglenni prentisiaeth, ac rydym hefyd yn cynnal adolygiad thematig o fedrau sylfaenol mewn dysgu oedolion yn y gymuned.

Byddem yn croesawu'r cyfle i weithio gyda Medr a phartneriaid eraill ar ffurfio dyfodol rhaglenni prentisiaethau yng Nghymru. Ar hyn o bryd, rydym yn arolygu ehangder priodol

[11] https://estyn.gov.wales/system/files/2024-02/Jobs%20Growth%20Wales%2B%20youth%20programme%20-%20autumn%202023%20insights.pdf

o ddarpariaeth ar draws ein harolygiadau o brentisiaethau, sy'n cynnwys prif gontractwyr, partneriaid cyflwyno ac is-gontractwyr. Ni waeth sut beth fydd y tirlun cyllid prentisiaethau wrth symud ymlaen, gallwn gefnogi Medr â'r ymrwymiad i sicrhau safonau a chymhwysedd galwedigaethol cadarn. Byddem hefyd yn croesawu gweithio gyda Medr a phartneriaid eraill i ystyried sut gellir cyflawni ymagwedd fwy cydlynol at gyflwyno prentisiaethau ar bob lefel, gan gynnwys prentisiaethau gradd, er budd datblygu llwybrau dysgu cydlynus.

Mae ymgysylltu â chyflogwyr yn hanfodol i nodi a deall gofynion medrau yn y dyfodol. Trwy ein gwaith arolygu a thematig, gallwn gefnogi Medr i gael darlun ledled y wlad o ddatblygiadau mewn meysydd blaenoriaeth allweddol fel deallusrwydd artiffisial neu dechnolegau gwyrdd. Mae'n bwysig wrth ymgysylltu â Medr a chyrff / rhwydweithiau cynrychioliadol, fod cyflogwyr hefyd yn deall eu hymrwymiadau i gynorthwyo dysgwyr yn y sectorau trydyddol i ddatblygu'r medrau sydd eu hangen i gyfrannu at yr economi a'r gymdeithas. Mae ein harolygiadau o ddarparwyr prentisiaethau ers pandemig COVID-19, fel yr amlinellir yng nghrynodeb sector ein hadroddiad blynyddol[12] ar gyfer 23/24, wedi amlygu thema bryderus am gyflogwyr – yn enwedig yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol – sef nad ydynt yn anrhydeddu eu dyletswyddau cytundebol i ganiatáu amser i brentisiaid fynychu gweithgareddau hyfforddi ac asesu i ffwrdd o'r gwaith.

**Nod Strategol 3**
Rydym yn cytuno bod yr ymrwymiadau sylfaen a thwf yn Nod Strategol 3 yn ymddangos yn briodol. Fodd bynnag, byddem yn croesawu cyfeiriad at y rôl allweddol y byddai'r gweithlu addysg drydyddol yn ei chwarae i gyflawni'r nod hwn.

Rydym yn croesawu'r ffocws a'r ymrwymiad i welliant parhaus yn nodau sylfaen a thwf yr amcan strategol hwn. Rydym wedi ymrwymo i'n cyfrifoldebau sicrhau ansawdd ac yn chwarae rôl allweddol yng ngwelliant parhaus addysg a hyfforddiant yng Nghymru. O'r herwydd, gallwn fod yn bartner allweddol i helpu Medr i gyflawni ei nodau i bennu trefniadau ansawdd a dangosyddion perfformiad uchelgeisiol. Hefyd, gallwn helpu nodi a rhannu arfer orau ar draws y sector trydyddol trwy ein hadroddiadau arolygu, ein hastudiaethau achos a'n gwaith thematig. Caiff nifer o sefydliadau eraill eu crybwyll yn y Cynllun, er enghraifft y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. A fyddai'n briodol cyfeirio at y rôl y byddai Estyn yn ei chwarae mewn helpu cyflawni'r nod strategol hwn?

Mae'n ymddangos yn briodol fod unrhyw fodelau cyllid sydd wedi'u seilio ar berfformiad yn cael eu cyflwyno'n raddol i ganiatáu cyfnod pontio esmwyth a chyn lleied o darfu ar ddysgu ag y bo modd. Pan gaiff dulliau cyllid eu datblygu i ddylanwadu ar welliant parhaus, fel y defnyddir pwerau rheoleiddiol i ddylanwadu ar gyllid, byddwn yn awyddus i gydweithio â Medr ar y systemau a'r prosesau a fyddai'n digwydd ar ôl gweithgarwch arolygu sy'n nodi tanberfformio sylweddol ar lefel darparwr, er enghraifft pan fydd darparwyr yn ymgymryd â gweithgarwch dilynol parhaus.

Rydym yn croesawu'r ffocws ar hyrwyddo safonau rhagorol. Bydd rhannu'r arfer fwyaf effeithiol a chodi'r meincnod ar y cyd yn allweddol wrth gyflawni hyn. Trwy ein gwaith, gallwn amlygu a rhannu cipluniau ar arfer effeithiol ac astudiaethau achos manylach i gefnogi'r nod hwn. Byddem yn croesawu'r cyfle i gyflwyno cynadleddau yn canolbwyntio ar arfer ar gyfer y gweithlu addysg drydyddol fel cyfrwng i gefnogi cyflawni'r nod strategol hwn.

**Nod Strategol 4**
Rydym yn cytuno bod yr ymrwymiadau sylfaen a thwf yn Nod Strategol 4 yn ymddangos yn briodol.

[12] https://annual-report.estyn.gov.wales/2024-1/work-based-learning/

**Nod Strategol 5**
Rydym yn cytuno bod yr ymrwymiadau sylfaen a thwf yn Nod Strategol 5 yn ymddangos yn briodol.

Rydym yn croesawu'r ymrwymiad i annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg fel nod strategol yn y Cynllun hwn, ac yn edrych ymlaen at gydweithio â Medr a phartneriaid eraill i helpu datblygu'r strategaeth genedlaethol dros y ddwy flynedd nesaf. Ar draws darpariaeth addysg bellach a phrentisiaethau, ychydig iawn o ddysgwyr sy'n gwneud unrhyw waith ysgrifenedig yn Gymraeg. Mae cyfleoedd cyfyngedig hefyd trwy ddysgu oedolion yn y gymuned i ddysgwyr allu dilyn cyrsiau cyfrwng Cymraeg neu ddatblygu eu medrau Cymraeg. Mae arweinwyr ar draws y sectorau yn wynebu heriau parhaus sylweddol wrth recriwtio staff â medrau addas sy'n gallu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg. Caiff y broblem hon ei gwaethygu gan y ffaith nad oes digon o fyfyrwyr yn cofrestru i hyfforddi i fod yn athrawon ysgol uwchradd, yn enwedig trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y gweithlu yn allweddol o ran cyflawni'r amcan hwn, a byddem yn disgwyl gweld Medr yn gweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn ogystal â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i fwrw ymlaen i gyflawni'r nod hwn. Bydd ein hadolygiad thematig presennol o waith y Coleg Cymraeg Cendlaethol yn darparu tystiolaeth werthfawr i helpu ffurfio camau gweithredu yn y dyfodol i gyflawni'r nod hwn.

10. Beth yw'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer **dysgwyr** presennol ac yn y dyfodol yn y sector addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru?

    A yw'r rhain yn cael eu hadlewyrchu'n ddigonol yn y Cynllun?

    **Ydyn** / Nac ydyn / Yn rhannol. Rhowch fanylion.

    Yn eich ateb, ystyriwch a yw'r Cynllun yn sicrhau cydbwysedd digonol rhwng y blaenoriaethau hyn ochr yn ochr â'r dyletswyddau eraill (fel yr amlinellir yn rhan un) a osodir arnom ni.

At ei gilydd, mae'r Cynllun yn cynrychioli'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer dysgwyr dros y pum mlynedd nesaf, yn fras, ac yn sicrhau cydbwysedd digonol rhwng y blaenoriaethau hyn a'i ddyletswyddau deddfwriaethol eraill. Dyma fyddai enghreifftiau o'r blaenoriaethau ar gyfer dysgwyr:

- **Iechyd meddwl a lles.** Mae'r cymorth ar gyfer dysgwyr sy'n dweud bod ganddynt broblemau â gorbryder ac iechyd meddwl yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i ddysgwyr.
- **Datblygu medrau Cymraeg**. Ar draws darpariaeth ôl-16, ychydig iawn o ddysgwyr sy'n gwneud unrhyw waith ysgrifenedig yn Gymraeg. Mae cyfleoedd cyfyngedig hefyd i ddysgwyr ddilyn cyrsiau cyfrwng Cymraeg neu ddatblygu eu medrau Cymraeg.
- Mae **presenoldeb dysgwyr** yn parhau i fod yn wannach na normau cyn y pandemig. Nid oes cyfeiriad at bresenoldeb dysgwyr yn y Cynllun Strategol. Fodd bynnag, gallai cyfraddau cyfranogiad dysgwyr fwy neu lai gwmpasu'r flaenoriaeth allweddol hon.

- Mae **medrau sylfaenol dysgwyr**, yn enwedig medrau rhifedd, yn llai datblygedig na charfanau tebyg cyn y pandemig. Mae angen i ddysgwyr allu manteisio ar ddarpariaeth medrau sylfaenol mewn ffordd ystyrlon a chyd-destunol a fydd yn ennyn eu diddordeb ac yn eu cymell i ddatblygu eu medrau ochr yn ochr â chymwysterau a nodau eraill.
- Mae **deilliannau dysgwyr** mewn sectorau galwedigaethol allweddol yn parhau i fod gryn dipyn islaw lefelau cyn y pandemig.
- **Mynediad at lwybrau dysgu clir a thryloyw** sy'n hawdd i'w llywio gyda phwyntiau gadael a mannau cyrraedd ar bob lefel. Ochr yn ochr â'r llwybrau hyn, bydd angen i'r holl ddysgwyr presennol a dysgwyr yn y dyfodol allu manteisio ar gyngor ac arweiniad addysgiadol ac annibynnol ar yrfaoedd sydd wedi'u teilwra o amgylch anghenion y dysgwr a dim byd arall.

11. Beth yw'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer **darparwyr** addysg drydyddol yng Nghymru yn y pum mlynedd nesaf?

    A yw'r rhain yn cael eu hadlewyrchu'n ddigonol yn y Cynllun?

    **Ydyn** / Nac ydyn / Yn rhannol. Rhowch fanylion.

    Yn eich ateb, ystyriwch a yw'r Cynllun yn sicrhau cydbwysedd digonol rhwng y blaenoriaethau hyn ochr yn ochr â'r dyletswyddau eraill (fel yr amlinellir yn rhan un) a osodir arnom ni.

At ei gilydd, mae'r Cynllun yn cynrychioli'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer darparwyr dros y pum mlynedd nesaf, yn fras, ac yn sicrhau cydbwysedd digonol rhwng y blaenoriaethau hyn a'i ddyletswyddau deddfwriaethol eraill. Dyma fyddai enghreifftiau o'r blaenoriaethau ar gyfer darparwyr:

- Mae **cyfran y bobl ifanc sy'n dweud bod ganddynt broblemau â gorbryder ac iechyd meddwl** yn parhau i fod yn flaenoriaeth ac yn her sylweddol i ddarparwyr. Felly, croesewir mai nod sylfaen yw datblygu fframwaith ar gyfer iechyd meddwl a lles.
- Mae Estyn yn parhau i weld gormod o enghreifftiau o **hunanwerthuso a chynllunio gwelliant parhaus aneffeithiol ar draws darparwyr ôl-16**. Mae'n hanfodol bod darparwyr yn gwneud yn siŵr fod eu gwaith bob amser yn ychwanegu gwerth. Dylai fod ganddynt ddealltwriaeth glir o'r hyn sy'n gweithio'n dda a dylent flaenoriaethu gwella addysgu, hyfforddi a dysgu i sicrhau'r deilliannau gorau posibl ar gyfer dysgwyr. Er bod cyfnod pontio esmwyth yn cael ei groesawu i ddarparwyr i osgoi tarfu, dylai Medr ystyried pa mor effeithiol y gall darparwyr hunanwerthuso a rheoli, a'r rôl y gall Estyn a phartneriaid eraill ei chwarae i gefnogi hyn.
- Mae **cymorth effeithiol ar gyfer dysgwyr, yn cynnwys ar gyfer y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a nodwyd,** yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel i ddarparwyr. Er bod y Cynllun yn cefnogi cynwysoldeb a chyfle cyfartal i bawb, o gofio bod Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys addysg

(Cymru) (ADYTA) wedi cael ei rhoi ar waith yn gymharol ddiweddar, gellid bod wedi rhoi mwy o bwyslais yn y Cynllun ar sut bydd darparwyr yn ymateb ac yn cynorthwyo dysgwyr sydd ag ADY.

- Nid yw'r **mynediad at gyngor, gwybodaeth ac arweiniad diduedd ar yrfaoedd a gaiff darpar ddysgwyr** bob amser yn glir ac yn gyson ddefnyddiol. Mae angen yn parhau i ddatblygu'r ffordd y caiff ystod eang y ddarpariaeth sydd ar gael ar draws y sectorau ôl-16 yng Nghymru ei pharu â dysgwyr unigol. Gall fod yn anodd i ddysgwyr weld a deall ystod lawn yr opsiynau sydd ar gael iddynt.
- Mae **medrau sylfaenol dysgwyr,** yn enwedig medrau rhifedd, yn parhau i fod yn llai datblygedig na medrau carfanau tebyg cyn y pandemig. Ar draws y sectorau ôl-16, nid yw ymagweddau darparwyr at ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr yn manteisio'n ddigonol ar gyd-destunau a diddordebau galwedigaethol dysgwyr. Gall hyn wneud dysgwyr yn llai awyddus i weithio a chyfyngu ar y cynnydd a wnânt. Mae cyfansoddiad asesiadau allanol Sgiliau Hanfodol Cymru, fel yr adroddwyd yn ein hadolygiad thematig diweddar, wedi cymhlethu'r mater hwn.

12. Beth yw'r cyfleoedd mwyaf o ran cael un corff yn gyfrifol am oruchwylio'r sector trydyddol cyfan?

    Yn eich ateb, ystyriwch p'un a yw'r Cynllun yn ein galluogi i wneud y gorau o'r cyfleoedd hyn, neu sut gallem ni wneud hyn yn well.

Rydym yn gweld cyfle gwerthfawr yn sgil cael un corff sy'n gyfrifol am oruchwylio'r sector trydyddol cyfan sydd â'r potensial ar gyfer sector mwy cydgysylltiedig a chynhwysol, gyda llwybrau clir ar gyfer dysgwyr. At ei gilydd, mae'r Cynllun yn galluogi Medr i gyflawni'r cyfle hwnnw ar lefel strategol. Fodd bynnag, bydd angen y manylion bach a'r cynlluniau sy'n eistedd dan bob ymrwymiad i sicrhau bod y sector yn gweithio gyda'i gilydd wrth gydweithio tuag at nodau cyffredin.

13. Mae gan Medr ddyletswydd i hyrwyddo cydweithio ar draws y sector addysg drydyddol ac ymchwil.

    I ba raddau y mae'r Cynllun yn ein galluogi i wneud y gorau o gyfleoedd i gydweithio?

    **Yn llawn** / Yn gymedrol / Ychydig bach / Ddim o gwbl. Rhowch fanylion.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn eglur trwy gydol y Cynllun Strategol ac ym mhob un o'r chwe nod a gyflwynir. Heblaw ychydig iawn o bartneriaid a enwir, h.y. y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, mae pob un o'r nodau'n amlinellu'r angen i 'weithio gyda phartneriaid'. Ar lefel uwch, byddai'r Cynllun yn galluogi Medr i gyflawni ei weledigaeth.

Mae'n werth nodi y bydd angen cydweithio hefyd i ymestyn y tu hwnt i gwmpas Medr yn y sector trydyddol i gyd-fynd â darpariaeth ôl-16 arall a fydd yn parhau i gael ei ariannu a'i goruchwylio gan Lywodraeth Cymru: ar gyfer dysgwyr ag anghenion sylweddol mewn colegau arbenigol annibynnol, dysgwyr ôl-16 mewn ysgolion arbennig a gynhelir neu UCDau, rhaglen cyflogadwyedd ieuenctid Twf Swyddi Cymru+, cyfiawnder ieuenctid ac

oedolion sy’n ddysgwyr mewn carchardai (dysgu yn y sector cyfiawnder, gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi) a darpariaeth Cymraeg i Oedolion.

14. Mae angen i ni fod yn uchelgeisiol am yr hyn y gallwn ei gyflawni. Fodd bynnag, mae’r amgylchedd ariannol yr ydym yn gweithio ynddo yn heriol. Rydym yn cydnabod hefyd fod sefydlu Medr yn newid sylweddol i’r sector ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau cyfnod pontio esmwyth.

    O ystyried y cyd-destun yr ydym yn gweithio ynddo, i ba raddau y mae lefel yr uchelgais yn y Cynllun yn addas?

    **Yn llawn** / Yn gymedrol / Ychydig bach / Ddim o gwbl. Rhowch fanylion.

Wrth ystyried cyd-destun presennol y system addysg drydyddol yng Nghymru, rydym yn cytuno bod yr uchelgais yn y Cynllun yn addas a realistig wrth sicrhau cyfnod pontio esmwyth gyda chyn lleied o darfu ag y bo modd i ddarparwyr, dysgwyr, partneriaid a rhanddeiliaid allweddol eraill. Fodd bynnag, dylid adolygu’r Cynllun hwn yn rheolaidd, ac wrth i Medr aeddfedu a datblygu, dylai cyfleoedd i hwyluso amcanion, yn enwedig ymrwymiadau twf, gael eu hystyried a’u trafod yn rheolaidd gyda’r sector.

Rhan Tri: Ein Huchelgeisiau

15. Ystyriwch yr uchelgeisiau ar dudalen 4 y Cynllun.

    a) I ba raddau ydych chi’n cytuno â’n huchelgeisiau tymor hir ar gyfer llwyddo?

    **Yn llawn** / Yn gymedrol / Ychydig bach / Ddim o gwbl. Rhowch fanylion.

    b) Pa newidiadau sydd eu hangen yn y sector i gyflawni’r uchelgeisiau tymor hir hyn? Rhowch fanylion ac enghreifftiau.

I greu llwybrau dysgu cydlynus, bydd angen i bob rhan o’r sector trydyddol weithio mewn partneriaeth i ddylunio a datblygu llwybrau dysgu clir a thryloyw sy’n gwbl hygyrch a dealladwy. O fewn y system addysg drydyddol bresennol, mae lefel o gystadleuaeth o hyd am gyfran y farchnad y gellid ei ystyried yn rhwystr rhag cydweithio a gwaith partneriaeth dilys. Gallai enghraifft o hyn gynnwys y cydlyniant rhwng prentisiaethau gradd a rhaglenni prentisiaethau craidd. Ar hyn o bryd, mae un rhwydwaith o ddarparwyr yn cyflwyno prentisiaethau sylfaen (lefel 2), prentisiaethau (lefel 3) a phrentisiaethau uwch (lefel 4/5) tra bod rhwydwaith ar wahân yn cyflwyno prentisiaethau gradd (lefel 6). Mae strwythur prentisiaethau gradd mor fawr fel bod dysgwyr yn gweithio ar lefelau 4/5 ym mlynyddoedd ffurfiannol rhaglenni prentisiaethau. Felly, mae’r potensial am gystadleuaeth ar gyfer dysgwyr ar lefel 4/5 naill ai am raglenni prentisiaethau gradd neu raglenni prentisiaethau uwch. Mae hon yn un o blith llawer o enghreifftiau o bosibl ar draws y sector lle gallai cystadleuaeth am gyllid fod yn rhwystr rhag gweithio mewn partneriaeth a llwybrau dysgu cydlynus go iawn. Bydd angen i Medr, wrth ymgynghori ar system gyllid sy’n galluogi llwybrau clir, adolygu ble mae’r rhain yn

bodoli a cheisio dileu'r rhwystrau cystadleuol hynny cyhyd ag y bo modd wrth gynllunio rhaglenni yn y dyfodol.

c) Sut byddwn ni'n gallu mesur llwyddiant yn erbyn yr uchelgeisiau hyn? Rhowch fanylion.

Byddai'r canlynol yn enghreifftiau o fesurau y gellid eu defnyddio i fesur llwyddiant yn erbyn yr uchelgeisiau tymor hwy:

- Adborth ar brofiad dysgwyr
- Cyfraddau cyrhaeddiad a dilyniant dysgwyr
- Cyfraddau cyfranogiad, cyflawniad a dilyniant ar gyfer grwpiau nad oes cynrychiolaeth ddigonol ohonynt
- Adolygiadau ac arolygiadau allanol, h.y. Estyn/QAA
- Symudedd cymdeithasol a mesurau gwerth ychwanegol
- Cyfraddau'r Gymraeg a datblygu (cyfraniad yn erbyn 1 miliwn erbyn 2050)

Rhan Pedwar: Y Gymraeg

16. A yw'r Cynllun yn adlewyrchu'n briodol uchelgais Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg?

**Ydy** / Nac ydy / Yn rhannol. Rhowch fanylion.

Rydym yn cytuno bod neilltuo un o'r amcanion strategol cyffredinol yn benodol i annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn ddatganiad o fwriad ac uchelgais i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Fodd bynnag, mae'r amcanion sylfaen a thwf yn rhai ar lefel uchel iawn ac yn eang iawn wrth ddatblygu strategaeth a pholisïau cenedlaethol, mewn partneriaeth â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Bydd y manylion o dan yr amcanion eang hyn yn allweddol a bydd angen iddynt gynnwys cydweithio â phartneriaid ar draws y sector addysg, cyn ac ar ôl 16. Hefyd, bydd angen i Medr weithio gyda Llywodraeth Cymru wrth ystyried sut mae Bil y Gymraeg ac Addysg yn cyd-fynd â'i dyletswyddau deddfwriaethol.

Heb y manylion gweithredol am sut bydd Medr yn cyflawni'r amcanion strategol hyn, mae'n rhy gynnar i allu gwerthuso p'un a fyddai unrhyw effeithiau andwyol posibl ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg neu beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

17. Pa effeithiau cadarnhaol neu andwyol allai'r Cynllun eu cael ar:

a) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg;

Gweler C16

b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

| |
|---|
| Gweler C16 |

18. A allai'r Cynllun gael ei newid i gynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau andwyol ar:

    a) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?

    Gallai / Na allai. Rhowch fanylion.

| |
|---|
| Gweler C16 |

b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

    Gallai / Na allai. Rhowch fanylion.

| |
|---|
| Gweler C16 |